**Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) (Diwygio) 2020**

**ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

**Opsiynau**

Ystyriwyd yr opsiynau polisi canlynol:

- *"Gwneud dim" (llinell sylfaen).* Byddai'r opsiwn o wneud dim yn golygu y byddai'n dal yn ofynnol i ysgolion anfon y data asesu personol at awdurdodau lleol. Felly, ni châi unrhyw newid ei wneud i'r Rheoliadau presennol.

- *Dileu'r gofyniad.* Byddai'r ail opsiwn hwn yn golygu gwneud diwygiadau i'r Rheoliadau perthnasol.

**Costau a manteision**

Mae costau Opsiwn 1 (*Gwneud dim*) yn cwympo ar ysgolion yn bennaf – gan fod rhaid iddynt gasglu a chyflwyno gwybodaeth benodol. Gallai fod cost fach hefyd i awdurdodau lleol os bydd rhaid iddynt wneud trefniadau i dderbyn yr wybodaeth hon (a hitha'n wybodaeth sensitif). Prin yw'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn, os o gwbl, gan nad oes angen trosglwyddo gwybodaeth bellach er mwyn gweithredu'r asesiadau ar-lein.

Bydd Opsiwn 2 (*Dileu'r gofyniad*) yn dileu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa bresennol. Efallai y bydd ysgol yn dal i ddewis rhannu canlyniadau eu hasesiadau personol ar-lein gyda'u hawdurdod lleol, ond penderfyniad i'r ysgol fyddai gwneud hyn. Bydd Opsiwn 2 yn sicrhau bod y gwaith o weinyddu'r asesiadau personol yn unol â'r polisi a nodir yn '*Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol*', sef mai prif ddiben asesu yw cefnogi addysgu a dysgu, ac y dylid datgysylltu asesu ac atebolrwydd lefel uchel.

**Asesu'r Gystadleuaeth**

Ni ddefnyddiwyd yr hidlydd cystadleuaeth gan nad yw'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn effeithio ar fusnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol.